CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: Dydd Llun, 28 Hydref 2013

Rhif Union: 01824712589

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 5 TACHWEDD 2013** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd yn cael eu hystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD** (Tudalennau 7 - 8)

Nodi'r digwyddiadau dinesig sydd gan Gadeirydd y Cyngor (copi yn amgaeedig).

**5 COFNODION** (Tudalennau 9 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd 8 Hydref, 2013 (copi'n amgaeedig).

**6 ARBEDION EFFEITHLONRWYDD Y GWEITHLU** (Tudalennau 19 - 30)

Ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (copi'n amgaeedig), i roi diweddariad i'r Cyngor Llawn ar drafodaethau'r gweithlu, ac yn dilyn canlyniad cadarnhaol i bleidleisiau aelodau'r Undeb Llafur, i gael cytundeb y Cyngor Llawn i'w weithredu.

**7 STRATEGAETH UCHELGAIS ECONOMAIDD A CHYMUNEDOL DDRAFFT** (Tudalennau 31 - 266)

Ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (copi'n amgaeedig), i'r Cyngor gymeradwyo'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol a'r Cynllun Cyflawni.

**8 DEDDF DELWYR METEL SGRAP 2013** (Tudalennau 267 - 294)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd a Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd (copi'n amgaeedig), i roi gwybod i'r Cyngor Llawn am ddarpariaethau'r Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013, a gofyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r pwerau wedi'u dirprwyo i'r Pwyllgor Trwyddedu glywed sylwadau llafar.

**9 RHYBUDD O GYNNIG**

Ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Colin Hughes:

"Bod y cyngor hwn yn gwahardd mynediad at wefannau cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog o lyfrgelloedd, adeiladau a mannau wifi a redir gan y Cyngor, er mwyn gwneud ei orau glas i sicrhau nad ydyw pobl ddiamddiffyn yn defnyddio cyfleusterau'r Cyngor i gael mynediad at ffynonellau nad ellir eu fforddio, ac sydd weithiau yn anghyfrifol, o fenthyca arian. Yn hytrach, bydd y cyngor yn cyfeirio pobl at undebau credyd a Chyngor ar Bopeth yn y gobaith y bydd cyngor da yn eu tywys yn well drwy eu problemau ariannol."

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

## 10 RHYBUDD O GYNNIG

Ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Julian Thompson-Hill, Hugh Irving, Ann Davies, Peter Owen, Martyn Holland a James Davies:

“Yn sgil y sylw cenedlaethol beirniadol diweddar o Ysbyty Glan Clwyd a’n pryderon ers peth amser am y ffordd y cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei redeg, rydym yn galw ar Gadeirydd y Bwrdd a benodwyd yn ddiweddar i ddod i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn. Hoffem iddo egluro ei gynlluniau i weddnewid enw’r Bwrdd a’r Gwasanaeth Iechyd yn gyffredinol ar draws Gogledd Cymru ac yma yn Sir Ddinbych. Rydym hefyd eisiau iddo ddweud wrthym sut y bydd yn ailadeiladu hyder staff, cleifion a’r cyhoedd yn ein gwasanaethau iechyd lleol.”

## 11 RHYBUDD O GYNNIG

Ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynir gan y Cynghorwyr Gwyneth Kensler ac Arwel Roberts:

“Mae’r Cyngor yn nodi bydd:

- Llywodraeth leol yn cael toriadau sylweddol mewn termau real yn y dyfodol o ganlyniad i Adolygiad Gwario Llywodraeth San Steffan a’r sgil effeithiau ar gyllideb Llywodraeth Cymru.
- Gallai ymestyn y Dreth Trafodion Ariannol ar gyfranddaliadau i ddosbarthiadau asedau eraill fel bondiau a deilliadau godi £20bn o refeniw ychwanegol yn y DU y flwyddyn;
- Mae o leiaf 11 gwlad Ewropeaidd gan gynnwys Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal a Sbaen yn symud ymlaen gyda FTT ar gyfranddaliadau, bondiau a deilliadau yr amcangyfrifir iddynt godi £30bn y flwyddyn.

Mae’r Cyngor yn credu:

- Gallai refeniw o'r FTT helpu i drwsio’r difrod a berir gan doriadau i wasanaethau cyhoeddus;
- Fel darparwyr allweddol o wasanaethau lleol a chyflogaeth, mae llywodraeth leol yn haeddu cael cyfran helaeth o refeniw FTT.

Mae’r Cyngor yn penderfynu y dylai:

- Llywodraeth y DU ymestyn yr FTT cyfredol ar gyfranddaliadau i ddosbarthiadau asedau eraill, fel bondiau neu ddeilliadau, a sicrhau bod y refeniw yn cael ei rannu’n deg i weinyddiaethau wedi’u datganoli.

Mae’r Cyngor yn penderfynu ymhellach i:

- Ysgrifennu at Brif Weinidog y DU, y Dirprwy Brif Weinidog, a Changhellor y Trysorlys, yn nodi cefnogaeth y cyngor hwn tuag at ymestyn ar FTT.”

12 **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR** (Tudalennau 295 - 298)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cyngor (copi'n amgaeedig).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Ian Armstrong
Raymond Bartley
Brian Blakeley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
William Cowie
Ann Davies
James Davies
Meirick Davies
Richard Davies
Stuart Davies
Peter Duffy
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Carys Guy
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Colin Hughes
Rhys Hughes
Hugh Irving
Alice Jones
Huw Jones
Pat Jones
Gwyneth Kensler
Geraint Lloyd-Williams
Margaret McCarroll
Jason McLellan
Barry Mellor
Win Mullen-James
Bob Murray
Peter Owen
Dewi Owens
Merfyn Parry
Paul Penlington
Arwel Roberts
Gareth Sandilands
David Simmons
Barbara Smith
David Smith
Bill Tasker
Julian Thompson-Hill
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Eryl Williams
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446